Cardiff Council Update: 1st September

Welcome to the latest update from Cardiff Council, covering: A £500,000 technology boost for Cardiff Council creative industry plans, Extinction Rebellion in Cardiff and 70,000 face masks for distribution to secondary schools in Cardiff for the start of term.

£500,000 technology boost for Cardiff Council creative industry plans

Following a successful bid for funding, the Welsh Government is providing £500,000 to Cardiff Council to improve the infrastructure which transports fibre optic broadband around the city.

The work in Cardiff, which will be completed next year, will join up with ongoing investment in the duct network along the M4 corridor, bringing benefits across the South Wales region.

Across Wales more than 95 per cent of premises can access superfast broadband following the Welsh Government's Superfast Cymru programme. In addition a further rollout of gigabit speed fibre broadband is taking place in those areas which are not yet able to receive it, with a recent extension focussing on areas with less than 90 per cent coverage.

Businesses and organisations in Cardiff's fast-growing creative industries sector have been working closely with Cardiff Council for the past 18 months and together they have identified the need for the city to expand its existing fibre optic duct network. This is in order to increase the capacity of the 'Cardiff Creative Network' aimed at providing the gigabit broadband speeds required by the sector.

Read more here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24627.html

Extinction Rebellion Arrives in Cardiff

Extinction Rebellion arrived in Cardiff on Friday (August 28th) to campaign against Climate Change and the threat to the city from rising sea levels.

Marquees and stalls were put up by the campaigners in the Hayes and Working Street and information was provided to the public, as they passed by.

Over the weekend, the protestors did not cause any disruption, other than placing some banners across a number of highway bridges in the city and at one point, on the walls of Cardiff Castle for a photo which was subsequently removed.

Today, marks the beginning of Extinction Rebellion's national campaign which is taking place in London, Manchester, Bristol, Cardiff and Leeds.

This morning campaigners took up camp on City Hall Lawn, without the authority of the Council. Although prevention measures were put in place to stop vehicles getting onto Cardiff's parkland, it is impossible to stop people walking into Cardiff's parks or open spaces to set up camp.

The Council issued a statement on Friday, which clearly outlines our position and can be read here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24615.html

The protest action by Extinction Rebellion will continue all this week, with the final day of action taking placed on Saturday September 5th.

70,000 face masks prepared for Cardiff secondary schools

Ahead of the start of the autumn term this week, 70,000 face masks have been sorted at County Hall and distributed to secondary schools across the city.

This comes after last week's announcement that the Council strongly recommends that all school-based staff and mainstream secondary school pupils wear face coverings when moving around corridors, in communal areas such as lifts, stair wells and toilets and in situations where social distancing cannot be observed.

The Council will be supplying every member of school staff and every mainstream secondary school pupil with two re-useable masks for the start of term.

Read more here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24610.html and to find out more about measures in place for the return to school, visit our FAQs here: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/FAQ-for-parents-and-pupils/Pages/default.aspx?utm_source=Twitter&utm_medium=social&utm_campaign=SocialSignIn&utm_content=COVID-19+v2

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 1 Medi

Croeso i ddiweddariad olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd yn cynnwys: Hwb o £500,000 ar gyfer technoleg i gynlluniau Cyngor Caerdydd ar gyfer y diwydiannau creadigol, Gwrthryfel Difodiant yn Nghaerdydd a 70,000 o fasgiau wyneb ar gyfer ysgolion uwchradd Caerdydd.

Hwb o £500,000 ar gyfer technoleg i gynlluniau Cyngor Caerdydd ar gyfer y diwydiannau creadigol

Yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid, mae Llywodraeth Cymru yn darparu £500,000 i Gyngor Caerdydd i wella'r seilwaith sy'n cludo band eang ffibr optig o amgylch y ddinas.

Mae'r gwaith yng Nghaerdydd, fydd yn cael ei gwblhau y flwyddyn nesaf, yn ychwanegol i'r buddsoddiad parhaus yn y rhwydwaith pibelli ar hyd coridor yr M4, gan ddod â manteision ledled rhanbarth De Cymru.

Ledled Cymru, gall dros 95 y cant o adeiladau ddefnyddio band eang cyflym iawn yn dilyn rhaglen Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru. Hefyd, bydd cynllun pellach ar gyfer band eang ffibr cyflymder gigabit yn digwydd yn yr ardaloedd hynny sydd ddim yn gallu ei dderbyn eto, gydag estyniad diweddar yn canolbwyntio ar ardaloedd ble y mae llai na 90 y cant yn derbyn y gwasanaeth.

Mae busnesau a sefydliadau yn sector y diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd, sy'n datblygu'n gyflym, wedi bod yn cydweithio'n agos â Chyngor Caerdydd am y 18 mis diwethaf, a gyda'i gilydd, maent wedi nodi yr angen i'r ddinas ehangu ei rhwydwaith pibelli ffibr optig. Mae hyn er mwyn cynyddu capasiti 'Rhwydwaith Creadigol Caerdydd' sydd wedi anelu at ddarparu'r cyflymder band eang gigabit sydd ei angen ar y sector.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24628.html

Gwrthryfel Difodiant yn cyrraedd Caerdydd

Cyrhaeddodd Gwrthryfel Difodiant yng Nghaerdydd ddydd Gwener (28 Awst) i ymgyrchu yn erbyn Newid yn yr Hinsawdd a'r bygythiad i'r ddinas yn sgil cynnydd yn lefelau'r môr.

Gosododd yr ymgyrchwyr bebyll mawr a stondinau yn yr Aes a Stryd Working a rhoddwyd gwybodaeth i'r cyhoedd wrth iddynt fynd heibio.

Ni achosodd y protestwyr unrhyw aflonyddwch dros y penwythnos, ac eithrio gosod rhai baneri ar draws nifer o bontydd priffyrdd yn y ddinas ac ar un adeg, ar waliau Castell Caerdydd am lun, ond fe'u tynnwyd yn ddiweddarach.
Mae heddiw'n nodi dechrau ymgyrch genedlaethol Gwrthryfel Difodiant sy'n digwydd yn Llundain, Manceinion, Bryste, Caerdydd a Leeds.

Y bore yma, sefydlodd yr ymgyrchwyr wersyll ar Lawnt Neuadd y Ddinas heb awdurdod y Cyngor. Er bod mesurau atal wedi'u rhoi ar waith i atal cerbydau rhag mynd ar barcdir Caerdydd, mae'n amhosibl atal pobl rhag cerdded i mewn i barciau neu fannau agored Caerdydd i sefydlu gwersyll.

Cyhoeddodd y Cyngor ddatganiad ddydd Gwener, sy'n amlinellu ein safbwynt yn glir a gellir ei ddarllen yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24613.html

Bydd ymgyrch protestio Gwrthryfel Difodiant yn parhau drwy'r wythnos hon, gyda'r diwrnod gweithredu olaf ddydd Sadwrn 5 Medi.

70,000 o fasgiau wyneb wedi'u paratoi ar gyfer ysgolion uwchradd Caerdydd

Cyn dechrau tymor yr hydref yr wythnos hon, mae 70,000 o fasgiau wyneb wedi'u didoli yn Neuadd y Sir a'u dosbarthu i ysgolion uwchradd ledled y ddinas.

Daw hyn ar ôl y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf bod y Cyngor yn argymell yn gryf bod holl staff a disgyblion ysgolion uwchradd y brif ffrwd yn gwisgo gorchuddion wyneb wrth symud trwy goridorau a mannau cymunedol megis lifftiau, grisiau a thoiledau ac mewn sefyllfaoedd lle na ellir cadw pellter cymdeithasol.

Bydd y Cyngor yn cyflenwi dau fasg amldro i bob disgybl ac aelod o staff ysgol uwchradd pan fo'r tymor yn dechrau.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24611.html ac i ddarganfod mwy am fesurau sydd ar waith ar gyfer dychwelyd i'r ysgol, ewch i'n Cwestiynau Cyffredin yma https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/cwestiynau-cyffredin-i-rieni-a-disgyblion/Pages/default.aspx